| | |
|---|---|
| PWYLLGOR | **PWYLLGOR ARCHWILIO A LLYWODRAETHU** |
| DYDDIAD | **27 MAI 2021** |
| TEITL | **SWYDDOGAETH Y PWYLLGOR ARCHWILIO A LLYWODRAETHU** |
| PWRPAS YR ADRODDIAD | **CYFLWYNO'R TREFNIADAU GWEITHREDU NEWYDD DRAFFT I'R PWYLLGOR ER YSTYRIAETH** |
| AWDUR | **DEWI MORGAN, PENNAETH CYLLID CYNORTHWYOL (REFENIW A RISG)** |
| GWEITHREDIAD | **SYLWEBU AR Y CYNNWYS A MABWYSIADU'R TREFNIADAU NEWYDD** |

---

## 1. CYFLWYNIAD

1.1 Ers sefydlu Pwyllgor Archwilio Cyngor Gwynedd yn 1999, mae ei rôl wedi esblygu i adlewyrchu'r gofynion statudol ar awdurdodau lleol yn ogystal â newidiadau yn nhrefniadau gweinyddol mewnol y Cyngor.

1.2 Fel mater o drefn, bydd y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu yn ystyried a mabwysiadu Trefniadau Gweithredu yn ei gyfarfod cyntaf o gyngor newydd ar ôl etholiad. Mabwysiadwyd fersiwn gyfredol y Trefniadau Gweithredu gan y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu yn ei gyfarfod ar 6 Mehefin 2017.

1.3 Yn achlysurol fodd bynnag bydd newidiadau mewn trefniadau mewnol neu deddfwriaeth yn golygu fod angen addasu'r Trefniadau Gweithredu hyn ar adegau eraill.

1.4 Mae Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 yn gosod gofynion newydd ar bwyllgorau llywodraethu ac archwilio yr awdurdodau lleol, ac yn gwneud addasiadau i rannau perthnasol Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011. Bydd nifer o'r prif newidiadau yn dod i rym ar ôl etholiadau'r Cyngor yn 2022 a bydd y Swyddog Monitro yn cyflwyno papur pellach i'r Pwyllgor yn egluro'r newidiadau hyn yn llawn.

1.5 Bydd drafft o'r Trefniadau Gweithredu ar gyfer y cyfnod yn dilyn etholiad 2022,a fydd yn cynnwys nifer o addasiadau sylfaenol i adlewyrchu'r gofynion deddfwriaethol newydd, yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor yn 2022 ond yn y cyfamser cyflwynir addasiadau i'r Trefniadau sy'n angenrheidiol ar gyfer ymdrin â chyfrifon 2020/21 Cronfa Bensiwn Gwynedd.

## 2. MATERION ARIANNOL Y GRONFA BENSIWN

2.1 Wrth adolygu trefniadau llywodraethu Cronfa Bensiwn Gwynedd, rhoddwyd ystyriaeth i'r cwestiwn os mai Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu Cyngor Gwynedd a ddylai fod yn derbyn a chymeradwyo datganiadau o gyfrifon y gronfa bensiwn, neu'r Pwyllgor Pensiynau.

2.2 Er fod Mesur 2011 yn rhoi'r hawl i'r Cyngor osod unrhyw swyddogaethau addas i'r Pwyllgor (a'r Pwyllgor ei hun sydd i benderfynu sut mae i arfer ei swyddogaethau), mae'r Mesur hefyd yn gosod allan swyddogaethau y mae'n rhaid i'r Pwyllgor eu harddel.

2.3 Ers sawl blwyddyn, mae'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu wedi bod yn derbyn a chymeradwyo cyfrifon Cyngor Gwynedd a Cronfa Bensiwn Gwynedd, fel rhan o'i rôl fel y "rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu". Yn unol ag Adran 81 Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, un o'r rolau statudol y mae'n rhaid i'r Pwyllgor eu cyflawni yw ***i arolygu materion ariannol yr awdurdod a chraffu arnynt***.

2.4 Yn unol â Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol 2013, mae Cyngor Gwynedd yn "awdurdod gweinyddu" ar ran Cronfa Bensiwn Gwynedd, ac yn unol â Chyfansoddiad y Cyngor mae'r swyddogaeth sy'n ymwneud â phensiynau llywodraeth leol ayb trwy rym Rheoliadau o dan adran 7, 12 neu 24 o Ddeddf Blwydd-dal 1972 (sy'n cynnwys Rheoliadau 2013), yn fater sydd wedi ei ddirprwyo i'r Pwyllgor Pensiynau.

2.5 Mae cyfrifoldeb Cyngor Gwynedd fel "awdurdod gweinyddu" yn unol â Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol 2013 wedi eu dirprwyo i'r Pwyllgor Pensiynau; dyma'r Pwyllgor sy'n gyfrifol am lywodraethu materion ariannol y Gronfa Bensiwn.

2.6 Caiff hyn ei ategu gan y cynigion Llywodraethu Da yn adroddiad Bwrdd Ymgynghorol y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol ("LGPS *Scheme Advisory Board*"), ***Good Governance: Phase 3 Report to SAB***, sy'n nodi: "Each administering authority must ensure their committee is included in the business planning process" (Argymhelliad E.4).

https://lgpsboard.org/images/Other/Annex_to_Good_Governance_letter_110221.pdf

https://lgpsboard.org/images/Other/Good_Governance_Final_Report_February_2021.pdf

2.7 I'r perwyl hyn, mae'r Pwyllgor Pensiynau wedi cymeradwyo cyllidebau'r gronfa 2020/21 (yn Ionawr 2020) a 2021/22 (yn Ionawr 2021), a byddai cymeradwyo'r cyfrifon terfynol yn cau'r cylch 'busnes'.

2.8 Ymhellach, addaswyd Rheoliad 8 o Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014, sy'n ymwneud â datganiadau cyfrifon cyrff perthnasol mwy (megis Cyngor Gwynedd), gan y Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) (Diwygio) 2018. Mae'r addasiad yma wedi dileu'r gofyniad i gynghorau sir neu gynghorau bwrdeistref sirol gynnwys, yn eu datganiad o gyfrifon, y cyfrifon ar gyfer cronfeydd pensiwn a weinyddir yn unol â Rheoliadau Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol 2013. Mae hyn yn weithredol o'r cyfrifon ar gyfer 2017/18 ymlaen.

2.9 Ar ôl ystyried y genadwri a rheoliadau diweddaraf, felly, ac adolygu'r trefniadau llywodraethu yn sgil hynny, mae'n ymddangos yn gynyddol glir mai'r Pwyllgor Pensiynau, a nid y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu, yw'r corff priodol i dderbyn a chymeradwyo datganiadau o gyfrifon Cronfa Bensiwn Gwynedd. Nid yn unig mae'r gofyn cyfreithiol iddynt gael eu cynnwys gyda chyfrifon y Cyngor wedi cael ei ddiddymu, ond mae'r bwrdd proffesiynol sy'n cynghori Cynlluniau Pensiwn Llywodraeth Leol hefyd yn argymell y dylai'r Pwyllgor Pensiynau ystyried y cyfrifon.

2.10 Nid oes anghysondeb yma gydag Adran 81 Mesur 2011 gan nad yw materion ariannol y Gronfa Bensiwn yn rhan o faterion ariannol Cyngor Gwynedd – mae arian y ddau endid gwbl ar wahân i'w gilydd.

2.11 Bydd y Pennaeth Cyllid yn cyflwyno adroddiad cyfatebol i'r Pwyllgor Pensiynau.

## 3. NEWIDIADAU I DREFNIADAU GWEITHREDU'R PWYLLGOR ARCHWILIO A LLYWODRAETHU

3.1 Mae'r Trefniadau Gweithredu drafft newydd wedi eu cynnwys fel Atodiad. Mae'r trefniadau gweithredu hyn yn parhau i fod yn gyson â gofynion y Mesur Llywodraeth Leol, Canllawiau Statudol sydd wedi eu paratoi i'w gefnogi a Chyfansoddiad y Cyngor. Mae'r rhannau perthnasol o'r Mesur a'r Canllawiau wedi eu cynnwys hefyd.

3.2 Pwysleir mai fersiwn dros dro yw hwn ar gyfer blwyddyn ariannol 2021/22 a datganiadau o gyfrifon 2020/21, gan nad yw'r holl addasiadau sy'n cael eu cyflwyno i weithgareddau'r Pwyllgor yn unol â Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 wedi dod i rym eto.

3.3 Y newidiadau i'r fersiwn yma (Mai 2021) i'r fersiwn sy'n cael ei ddisodli (Mehefin 2017) ydi addasu'r cymalau canlynol:

| **Fersiwn flaenorol** | **Fersiwn arfaethedig** |
|---|---|
| 2.2.18 Fel mater o drefn, bydd y Pwyllgor yn derbyn adroddiad blynyddol gan yr Archwilwyr Ariannol ar Ddatganiadau o Gyfrifon Cyngor Gwynedd a Cronfa Bensiwn Gwynedd. | 2.2.18 Fel mater o drefn, bydd y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu yn derbyn adroddiad blynyddol gan yr Archwilwyr Ariannol ar Ddatganiadau o Gyfrifon Cyngor Gwynedd. |
| 2.3.4 Bydd y Pwyllgor yn derbyn cynllun gwaith yr archwiliwr allanol ar Gyfrifon y Cyngor a Chyfrifon Cronfa Bensiwn Gwynedd. | 2.3.4 Bydd y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu yn derbyn cynllun gwaith yr archwiliwr allanol ar Gyfrifon y Cyngor. |
| 2.4.2 Bydd y Pwyllgor yn derbyn yr adroddiadau ariannol yn ddarostyngedig i archwiliad yn ystod mis Gorffennaf pob blwyddyn, wedi iddynt gael eu hardystio gan y Pennaeth Cyllid, gan gynnwys datganiadau ariannol Cronfa Bensiwn Gwynedd. | 2.4.2 Bydd y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu yn derbyn Datganiadau o Gyfrifon Cyngor Gwynedd, wedi iddynt gael eu hardystio gan y Pennaeth Cyllid ond yn ddarostyngedig i archwiliad, cyn diwedd mis Gorffennaf 2021, pryd bydd cyfle i herio eu cynnwys. |
| 2.4.3 Bydd yn derbyn y datganiadau ariannol terfynol cyn 30 Medi pob blwyddyn, gan herio eu cynnwys | 2.4.3 Bydd y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu yn derbyn y fersiwn derfynol ôl-archwiliad o Ddatganiadau Cyfrifon Cyngor Gwynedd cyn diwedd mis Tachwedd 2021, a chyfle i herio cynnwys adroddiad perthnasol yr archwiliwr allanol, sef Archwilio Cymru. |

## 4. ARGYMHELLIAD

4.1 Gofynnir i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu ystyried cynnwys yr atodiad, sylwebu ar ei gynnwys a chymeradwyo'r addasiadau i'r Trefniadau Gweithredu.